

WILLIAMS, HENRY (1624 - 1684), pregethwr Piwritanaidd, amlwg fel Bedyddiwr rhyddgymunol yn Sir Drefaldwyn.

Enw: Henry Williams
Dyddiad geni: 1624
Dyddiad marw: 1684
Plentyn: Rosamond Davis (née Williams)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: pregethwr Piwritanaidd, amlwg fel Bedyddiwr rhyddgymunol
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Thomas Richards

Ei gartref oedd Ysgafell ym mhlwyf Llanllwchaïarn. Disgybl i **Vavasor Powell** ydoedd, a chafodd gyfle i arfer ei ddoniau fel pregethwr teithiol o dan Ddeddf y Taeniad, yn Nhrefaldwyn Isaf a chyrrion Maesyfed; gwelir ei enw, yng nghwmni amryw o bregethwyr eraill, yn amdiffyn **Powell** yn yr *Examen et Purgamen*, 1654; a safodd yn gefn i **Powell** fel un o arwyddwyr y *Word for God* yn erbyn Diffynwriaeth Cromwell - hyn yn 1655. Pan ddaeth yr Adferiad yn 1660 nid oedd fawr obaith iddo rhag cael ei daflu i garchar. Trwm oedd ei benyd o dan ddeddfau Clarendon; dywedir gan ysbwyr 1669 ei fod yn cadw cyrddau dirgel yn ei dŷ ei hun, ac yn brif bregethwr ynddynt; adroddir am greulonderau direswm ato ef, a'i dad, a'i wraig, a choronir yr adroddiadau gan gyfeirio at ryfeddodau lled wyrthiol ' Cae'r Fendith ' (mynnodd **Joshua Thomas** gael golwg ar y cae yn 1745; dyry'r **Dr. William Richards** le amlwg i'r hanes yn ei *Cambro British Biography*, a **David Davies** le amlycach a mwy barddonol fyth yn ei gyfrol ar **Vavasor Powell**). Dywed **Henry Maurice** yn 1675 mai ar Henry Williams y syrthiodd mantell **Vavasor** yn Nhrefaldwyn, a dywed hefyd fod y pregethwr, fel yn nyddiau'r Taeniad, yn croesi'r ffin i Faesyfed i weini ar reidiau'r saint yn y sir honno. Gŵr diwyd, diabsen, tangnefeddus ydoedd, ac aiff Calamy (drwy gymorth **James Owen**), allan o'i ffordd i dalu teyrnged i'w waith a'i aberth. Claddwyd ef yn Llanllwchaïarn, 2 Ebrill 1684. Ysgrifennwyd galargan go hir amdano gan **Richard Davis**, gweinidog enwog Rothwell yn swydd Northampton, a oedd yn briod â'i ferch Rosamond; a disgynnydd go bell i Henry Williams oedd **Jane Williams**, yr hanesydd, a'i cyfenwai ei hun ' **Ysgafell**."

Awdur

Thomas Richards, (1878 - 1962)

Ffynonellau

- Joshua Thomas, *Hanes y Bedyddwyr ymhlith y Cymry: o amser yr Apostolion, hyd y flwyddyn hon: yn ddwy ran* (Caerfyrddin 1778) (arg. 1885), 285-7
- Vavasoris Examen et Purgamen or Mr V. Powell's impartiall trial who being apprehended upon the late hue and cry raised after him, hath appealed to God and his country, and is found not guilty* (Llundain 1654), 1654, 14
- Llawysgrifau yn llyfrgell Bodley o eiddo John Walker*, c. 13, f. 60
- Calendar of State Papers, Domestic Series, 1660-1*, 130
- Lambeth MS 639* (139)
- Broadmead Records* (1847, 1865), Add. B, 516-8
- D. Davies, *Vavasor Powell. The Baptist evangelist of Wales in the seventeenth century* (Llundain 1896), 1896, 114-31
- R. Williams, *Montgomeryshire Worthies* (1894), 310-2

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q19325966

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Yn ôl gŵyl
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government